Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Our Ref:
Your Ref:
Date: 04 December 2024
Contact:
Tel:
E-mail: afaenquiries@decymru-tan.gov.uk

Annwyl Sy/Fadam,

**Parthed: Newid trefniadau mynychu larymau tân awtomatig.**

Mae'n bosibl y byddwch yn cofio i ni ysgrifennu atoch ar y 03 Medi 2024 i'ch hysbysu am newid yn y ffordd y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymateb i achosion o Larymau Tân Awtomatig (LTA) o'r 6ed Ionawr 2025 ymlaen.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn parhau i ddiwygio ein hymateb i weithrediadau LTA, lle na cheir cadarnhad o dân. Mae hyn er mwyn lleihau'r nifer sylweddol o Larymau Tân Ffug yr ydym yn eu mynychu ar hyn o bryd.

Wedi ystyried adborth a dderbyniwyd trwy ein proses ymgysylltu ac addysg, mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu **ymestyn ei restr o adeiladau sydd wedi'u heithrio o'r polisi newydd ac na fydd model risg cysgu yn ystod y nos yn unig yn cael ei gychwyn o hyn allan**. Mae'r newid hwn i'n model ymateb yn dangos ein hymrwymiad i wrando ar yr adborth a dderbyniwyd gan ein rhanddeiliaid mewnol ac allanol a gweithredu'n gyfrifol amdano. Bydd y rhestr safleoedd isod yn cael ymateb i signalau larwm tân yn ystod y dydd a'r nos (24/7) o'r 6ed o Ionawr 2025.

1. **Eiddo Preswyl** (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i - blociau fflatiau, neuaddau preswyl myfyrwyr, llety staff GIG, tai gwarchod, tai amlfeddiannaeth, Cartrefi Nyrsio a Gofal Preswyl )
2. **Adeiladau addysgol** (meithrinfeydd, ysgolion, colegau/prifysgolion)
3. **Adeiladau treftadaeth** (adeiladau rhestredig Gradd I a II, amgueddfeydd, llyfrgelloedd)

Os nad yw eich eiddo yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau adeiladu uchod, ni fydd y Gwasanaeth yn ymateb i LTA yn eich adeilad yn ystod y dydd neu'r nos.

**Byddwn bob amser yn ymateb i danau a gadarnhawyd a bydd y rhain yn denu ymateb brys llawn neu uwch, yn dibynnu ar y wybodaeth a dderbynnir.**

Byddwn yn eich cynghori i adolygu eich asesiad risg tân a’ch strategaeth tân i gynnwys y gwelliant hwn a, lle bo angen, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gynnal trefniadau diogelwch tân effeithiol.

Mae hefyd croeso i chi neu gynrychiolwyr perthnasol eich sefydliad i ymweld â’n tudalen we LTA newydd sy’n cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn yn: https://bit.ly/GTADC-Larymau-Tân-Awtomatig

Yn gywir,



**Prif Swyddog Tân**

SGANIWCH FI